



## Partneriaeth Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg – Gyda'n gilydd yn hybu addysg cyfrwng Cymraeg

### Comisiynu gwaith prosiect

Cyfeirnod manyleb PH007

Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Drafft ar gyfer partneriaeth y Pencampwr.

### Cyflwyniad

Mae'r Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol a'r bartneriaeth o Awdurdodau Lleol, Mentrau Iaith, Cymraeg i Blant, RhAG a Llywodraeth Cymru yn ardal ddeddwyrain Cymru am gomisiynu Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Drafft ar gyfer partneriaeth y Pencampwr.

Nod y bartneriaeth yw creu Cymru lle mae pawb yn rhydd i ddysgu a siarad Cymraeg.

Nod y prosiect PH007 yw hwyluso gwaith y Fforymau Addysg Lleol a hybu addysg cyfrwng Cymraeg drwy greu adnodd i aelodau'r bartneriaeth ei berchnogi a phoblogi fesul ardal awdurdod lleol. Strategaeth Ddrafft sydd yn cael ei gomisiynu, nid Strategaeth. Bydd y Strategaeth Ddrafft yn cynnwys lle ar gyfer, esiampl/au o, a chyfarwyddiadau sut i fynd at i lunio holl elfennau Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata, o'r weledigaeth i ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

Nod y Strategaethau Ymgysylltu a Marchnata Addysg Cyfrwng Cymraeg unwaith y maent wedi eu mabwysiadu'n lleol yw cael pobl i deimlo bod addysg cyfrwng Cymraeg yn addas iddyn nhw, ac yn ei ddewis.

### Cefndir

Mae gan bob awdurdod lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a ddiweddarwyd yn 2022 ar gyfer y 5 a 10 mlynedd nesaf. Mae eu nodau'n seiliedig ar dyfu addysg cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r niferoedd o blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n siarad Cymraeg. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw'r cynlluniau ac maent wedi eu llunio ar y cyd â sefydliadau lleol a chenedlaethol. Maent yn atebol i Lywodraeth Cymru ar eu deilliannau ac mae eu llwyddiant yn ddibynnol ar gydweithio'n effeithiol drwy'r Fforymau Addysg Lleol.



Gwyddom nad yw pawb yn ne-ddwyrain Cymru yn gwybod bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol ac yn addas iddyn nhw. Mae hybu addysg Gymraeg felly yn hanfodol i wireddu amcanion y CSGAu a gweithio tuag ar nod Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Credwn fydd Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Drafft yn galluogi sefydliadau i adnabod a chyfuno'r elfennau sydd eisoes ar waith, megis llyfrynnau hybu addysg cyfrwng Cymraeg, tudalennau gwe, sesiynau chwarae Cymraeg i Blant, gwaith swyddogion y Mentrau Iaith a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn mynychu ffeiri lleol, gweithio â lleoliadau gofal plant, arddangos hwyl a llwyddiannau ysgolion cyfrwng Cymraeg, ag ati. Er y gweithgaredd sylweddol prin yw'r ffocws ar ymgyrchoedd unedig, negesu a brandio. Sylweddolwn bydd proffesiynoli'r gwaith drwy lunio a rhoi Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Drafft ar waith yn galluogi gwell cydweithrediad, gwell cydnabyddiaeth o rolau'r partneriaid, a gwell profiad i'r cyhoedd.

Dyma esiamplau o ddeunyddiau hybu addysg cyfrwng Cymraeg y de-ddwyrain.

#### **Cyngor Bro Morgannwg**

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Welsh-Medium-Education/Welsh-Medium-Education-and-Resources-for-Parents.aspx>

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Welsh-Medium-Education/Welsh-Medium-Education-and-Resources-for-Parents.aspx>

#### **Mudiad Meithrin**

<https://www.youtube.com/watch?v=AOSpCzh6ow&list=PLrUunC9eiE2w9VM6WRXmINit85akJLZpm&index=1>

#### **Cyngor Bwrdeistrefol Torfaen**

<https://www.carreg-lam.com/>

#### **Cyngor Dinas Casnewydd**

<https://www.newport.gov.uk/documents/Schools-and-Education/Welsh-in-Education/Becoming-Bilingual.pdf>

## **Manylion y Contract**

### **Teitl**

Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Drafft

### **Cyfeirnod y Prosiect**

PH007



## Disgrifiad

Nod y prosiect PH007 yw hwyluso gwaith partneriaethau lleol a hybu addysg cyfrwng Cymraeg drwy greu adnodd i aelodau'r bartneriaeth ei berchnogi a phoblogi fesul ardal awdurdod lleol.

Strategaeth Ddrafft sydd yn cael ei gomisiynu, nid Strategaeth. Bydd y Strategaeth Ddrafft yn cynnwys lle ar gyfer, esiampl/au o, a chyfarwyddiadau sut i fynd at i lunio holl elfennau Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata, o'r weledigaeth i gyfeiriadau'r cyfryngau cymdeithasol.

## Y gynulleidfa

Mae'r pecyn ar gyfer partneriaeth y Pencampwr.

Bydd yr adnodd yn addas i bobl heb brofiad o ymgysylltu a marchnata ei ddefnyddio. Bydd yn sail i drafodaethau ar lunio strategaeth ymgysylltu a marchnata lleol.

Byddwn yn rhannu'r adnodd gyda'r partneriaid a'i osod ar wefan y Pencampwr yn yr adran ar gyfer y partneriaid yn unig. Gellir ei rannu'n fwy eang tu ymlith ymarferwyr, ar lefel Cymru. Ni fydd ar gael i'r cyhoedd.

## Y cynnwys

Esiampl/au o neu ddisgrifiad perthnasol o:

- Weledigaeth (fel y sydd yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg)
- Prif nodau (3-4) a mesuryddion
- Brand
- Naratif / Prif negeseuon
- Tactegau
- Partneriaid a Sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd
- Rhanddeiliaid â'r cyhoedd a Sut rydym yn ymwneud a'n gilydd
- Prif gysylltiadau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid am sgwrs
- Cynllun gwaith i roi'r prif nodau ar waith sy'n cynnwys ymgysylltu cyhoeddus a'r cyfryngau cymdeithasol (gweithredoedd i'w cymryd o'r CSGAu)
- Calendr o ddiwyddiadau
- Rhestr adnoddau'r ymgyrch e.e. Llyfryn bod yn Ddwyieithog, tudalen we, fideos profiad y bobl, fideos Mudiad Meithrin, llyfr Cais am Le Mewn Ysgol, pop-ups,
- Y cyfryngau
- Cyfryngau'r sefydliadau gan gynnwys YouTube, Facebook a Twitter
- Cyfryngau eraill – papurau newydd, papurau bro, Radio Cymru, Radio Wales, BBC, ITV



- Manylion cyfrifon cymdeithasol yr ymgyrch gan gynnwys prif gyfri'r cynghorau, cyfrifon penodol, hashnodau,
- Manylion- iaith yr ymgyrch, pa bartneriaid i'w cynnwys @cymragibawb, @menteriaithlleol, delweddau,
- Cynnwys ymgyrchoedd llai e.e. trochi hwyrddyfodiaid, pontio o'r cynradd i'r uwchradd, ag ati
- Curadu'r cynnwys ar-lein - mathau o gynnwys- gwreiddiol, ail bwrpasu, ymgysylltu
- Sut i ymateb i sylwadau
- Mesur effaith – data, dangosyddion, arolygon, adnabyddiad brand
- Adolygu'r Strategaeth a dathlu llwyddiannau

Rydym yn disgwyl i bob adnodd yn enw'r Pencampwr hybu cynhwysiant a chynnaladwyedd.

### **Allbwn**

Yn Gymraeg a Saesneg

### **Brandio**

Bydd y pecyn yn gwneud defnydd o frandio'r Pencampwr – sydd yn cael ei ddylunio.

### **Proses**

Bydd disgwyl i'r cwmni llwyddiannus weithio'n agos gyda'r Pencampwr (Llio Elgar) a thîm bach o'r bartneriaeth er mwyn deall y sefyllfa gyfredol a sicrhau ansawdd yr allbwn.

Bydd y Pencampwr gallu darparu esiamplau o negesu a gweithredoedd presennol li'r cwmni llwyddiannus eu datblygu / cynnwys.

Bydd panel bach o Fwrdd y Pencampwr yn cymeradwyo'r strategaeth. Disgwylir i'r cwmni llwyddiannus wneud man newidiadau i'r strategaeth yn dilyn adborth y Bwrdd.

### **Amserlen**

Bwriadwn gomisiynu'r gwaith ym mis Awst 2023.

### **Iaith**

Disgwylir i'r Cwmni llwyddiannus weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Dyddiad Dyfarnu'r Contract**

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 5:00pm ar 22 Awst 2023, a bydd y dyfarnu'n digwydd erbyn 31 Awst, 2023.



## Dyddiad Cyflwyno

30 Hydref 2023.

Bydd angen ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd er mwyn sicrhau bod y partneriaid yn cael gwybod am y gwaith sy'n cael ei wneud.

## Cyllideb

Mae'n rhaid cynnwys costau a threuliau o fewn y gyllideb.

## Gwerth y Contract

Hyd at £4,000 yn cynnwys TAW. Caiff yr arian ei dalu o fewn 28 diwrnod o gyflwyno anfoneb ar ôl cwblhau'r prosiect. Rhaid danfon yr anfoneb i Fenter Caerffili, fel y sefydliad lletyol ar gyfer y Pencampwr, gan nodi teitl y prosiect a'r cyfeirnod. Darperir manylion anfonebu llawn ar y pryd.

## Meini Prawf a Chymhwysedd

Bydd rhaid i'r ymgeiswyr ar gyfer y prosiect hwn ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth o'r canlynol:

- Disgrifiad o sut y byddwch yn ymgymryd â'r Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Drafft: gweithredoedd, cyfrifoldeb, amseru
- Profiad blaenorol o greu strategaethau tebyg, profiad o gyd-weithio a chyd-greu â chleientiaid eraill, ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd a chynhwysiant, a phrofiad o greu strategaethau sy'n ymwneud a phartneriaid y trydydd sector / sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau de-ddwyrain Cymru
- Ansawdd: gwirio mewnol a gwirio gyda'r cleient

Bydd rhaid darparu gwybodaeth yn erbyn pob un o'r uchod er mwyn cael eich ystyried, ac mae croeso i chi gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol a pherthnasol. Bydd disgwyl hefyd i chi gadw mewn cysylltiad o ran cynnydd ac os oes cwestiynau'n codi.

Am wybodaeth bellach neu sgwrs am y gofyniad cysylltwch â [lloelgar@cymraegibawb.cymru](mailto:lloelgar@cymraegibawb.cymru) cyn 22 Awst 2023.



## **Manylion y Partneriaid**

Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg

### **Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Dinas a Sir Caerdydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Cyngor Sir Fynwy  
Cyngor Dinas Casnewydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Cyngor Bro Morgannwg

### **Mentrau Iaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Menter Bro Ogwr  
Menter Caerdydd  
Menter Caerffili  
Menter Casnewydd  
Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy  
Menter Iaith Bro Morgannwg  
Menter Iaith Merthyr Tudful  
Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

### **Partneriaid eraill**

Cymraeg i Blant  
Mudiad Meithrin  
Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)

### **Prif Sefydliad Cyllido**

Llywodraeth Cymru